**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Hydref 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Hywyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Nid oedd unrhyw Aelod wedi datgan unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 24 Medi, 2013 fel cofnod cywir.* |
| **5** | DARPARIAETH YN SEILIEDIG AR FFYDD | Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad, wedi'i gylchredeg yn flaenorol, oedd yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r adolygiad ffydd ac i ystyried a ddylid symud ymlaen a chyhoeddi'r cynnig trwy gyfrwng hysbysiad statudol.<br><br>***PENDERFYNWYD:***<br><br>*(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid ac agor ysgol newydd;*<br>*(ii) Cadarnhau'r ymrwymiad tuag at weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i gynnig ysgol* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *newydd yn seiliedig ar ffydd;*<br>*(iii) Cytuno i ddatblygu cynnig i alluogi ymgynghoriad ffurfiol ar adeiladu ysgol newydd yn seiliedig ar ffydd i ddisodli darpariaeth bresennol Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid.* |
| **6** | YMGYNGHORIAD FFURFIOL - YSGOL LLANBEDR | Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad, wedi'i gylchredeg yn flaenorol oedd yn diweddaru Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r trafodaethau gydag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru yn ymwneud ag arolwg ysgolion cynradd Rhuthun a'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr.<br><br>***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno i gymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, yn amodol ar ddewis y rhieni, ac yn amodol ar gasgliadau'r trafodaethau gyda'r Eglwys yng Nghymru.* |
| **7** | DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R ADRODDIAD ARIANNOL | Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson Hill yr adroddiad, wedi'i gylchredeg yn flaenorol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.<br><br>***PENDERFYNWYD** bod Aelodau'r Cabinet yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.* |
| **8** | EITHRIO RHAG TENDRO GIFT | Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad, wedi'i gylchredeg yn flaenorol, oedd yn |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Eithriad Tendr GIFT ac i ddyfarnu'r contract.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'r Cabinet yn cymeradwyo'r eithriad tendr GIFT ac i ddyfarnu'r contract i'r Wallich, y darparwr presennol.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | Cyflwynodd y Cynghorydd H. H. Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *bod y  Cabinet yn derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar ôl gwneud y diwygiadau y cytunwyd arnynt.* |